

Meaningful Chocolate

Adnoddau Pasg 2017

Tric neu drawsffurfiad?

– yr atgyfodiad

CA3-4

Nodiadau

Bwriad: I roi trosolwg o hanes y Pasg ac i ganolbwyntio ar yr atgyfodiad a stori'r ddau ddyn ar y ffordd i Emaus (Luc 24: 13-33).

I ddeall y cysyniad o drawsffurfiad a gweld ein bod i gyd yn cael ein trawsffurfio (neu ein newid) yn ystod ein bywydau.

Mae'r nodiadau yn:

1. rhoi trosolwg o hanes y Pasg
2. nodi ein bod ni i gyd yn newid (cael ein trawsffurfio) wrth i ni dyfu a byw ein bywydau.
3. cynnig darlleniad dramatig o hanes y daith i Emaus
4. yn rhoi cyfle i chwarae gêm 'Pwy ydy pwy?' wrth geisio adnabod oedolion wrth edrych ar luniau ohonynt fel plant.
5. rhoi cyfle i ni feddwl os yw ein haddysg a'n magwraeth yn gallu trawsffurfio (newid) ein bywydau. Mae'n bosib cynnig y cyfle i'r plant greu 'cwmwl geiriau' o'r hyn sydd wedi dylanwadu arnyn nhw.
6. help i ni ddeall bod gweld pobl mewn amgylchiadau gwahanol yn gallu ei gwneud hi'n anoddach i ni eu 'nabod.
7. rhoi gwybodaeth am y daith i Emaus
8. rhoi cyfle i ystyried y posibilrwydd fod presenoldeb Iesu a'i nerth yn parhau i weithio yn y byd heddiw drwy edrych ar gyfres o ddarluniau hardd.

Adnoddau:

Nodiadau a chyflwyniad PowerPoint

Adnoddau ychwanegol:

- Wy Pasg (heb ei lapio wedi ei osod ar hambwrdd)

- Iluniau o 3 aelod o staff/oedolion pan oeddent yn blant, i'w cynnwys yn y cyflwyniad Ppt.
- gwirfoddolwyr a rhai props i'w defnyddio wrth gyflwyno'r adroddiad/darlleniad dramatig o'r 'Ffordd i Emaus'.
- cân addas ar gyfer y Pasg

Technegol:

Sicrhewch eich bod wedi ymarfer gyda'r Ppt ymlaen llaw. Gwnewch unrhyw newidiadau sydd eu hangen. Ffont: Arial, Arial Rounded neu Helvetica.

Lluniau:

Mae'r lluniau o freeimages.com <<http://freeimages.com>>. (neu'n lluniau gan staff a chyfeillion beibl.net)

Edible Bunny/aschaeffer; Autumn Leaf /Claudia Meyer; Flowers Everywhere/ Edith Anne Oliveira Santos; Water in Glass / Mateusz Baran; Motherly Love / Júlía Tan; Highlander/ Marleen Mvg; Countryside 1/MailSparky; Make Poverty History/ Ashley Flood; Freedom 4 /Tolga Kostak; Sleeping Baby / s s; Helping the Elderly / Melodi2; Hands / Michael Illuchine; Helping hands / Miranda McCarty; Little Sparrow / Hajnalka Ardai Mrs; Time Heals All Wounds / Tim Ambler; Raised Hands / Christopher Bruno; I Love You / Tomasz A. Poszwa

Hanes y Pasg: lluniau gan Alida Massari o lyfryn Pasg 2017 y *Meaningful Chocolate Company*.

Tric neu drawsffurfiad



Sleid 1af (Mae'r sleidiau Ppt yn Gymraeg).

Cyflwyniad:




Mae'r Pasg yn agosáu. Dw i'n sicr mai dyma dych chi'n feddwl amdano pan dych chi'n meddwl am y Pasg (dangos yr wy Pasg mawr ar hambwrdd)! Byddwch yn onest! Ond, mewn gwirionedd cofio am yr wythnos olaf ym mywyd Iesu ydyn ni yn ystod y Pasg. Mae'r Pasg yn amser i gofio am ei farwolaeth a'i atgyfodiad (sef y ffaith iddo ddod yn ôl yn fyw).



Mae'r amser yma o'r flwyddyn yn amser da i gael trosolwg ar yr hanes. Mae hon yn wythnos bwysig iawn yn y calendr Iddewig - yr wythnos pan mae'r Iddewon yn paratoi am y Pasg - y Passover. Ar ddiwrnod cyntaf yr wythnos fe aeth Iesu i mewn i Jerwsalem ar gefn asyn. Cyfarchodd y bobl ef yn llawen wrth chwifio dail palmwydd. Credai rhai mai Iesu oedd y brenin a fyddai'n eu rhyddhau nhw oddi wrth y Rhufeiniaid.




Roedd Jerwsalem yn le peryglus i Iesu. Roedd yr arweinwyr Iddewig am ei ladd. Yn nes ymlaen yn yr wythnos, ar y dydd lau, fe olchodd Iesu draed ei ddisgyblion, er mwyn dangos mai i wasanaethu eraill y daeth, ac y dylai ei ddilynwyr wasanaethu eraill a dangos cariad.



Yn ystod y swper olaf gyda'i ddisgyblion cymerodd Iesu gwpan o win, adrodd gweddi o ddiolch, ac yna dweud wrthyn nhw, "Cymerwch hwn a'i rannu rhyngoch". Yna cymerodd dorth o fara, ac yna, ar ôl adrodd y weddi o ddiolch, ei thorri a'i rhannu i'w ddisgyblion. "Dyma fy nghorff i, sy'n cael ei roi drosoch chi. Gwnewch hyn i gofio amdana i." Yn ystod y swper sleifiodd/lithrodd dyn o'r enw Jwdas allan o'r ystafell. Roedd o'n mynd i fradychu Iesu wrth ddweud wrth ei elynion sut i'w ddal.



Ar ôl bwyta aeth Iesu a'i ddisgyblion i ardd Gethsemane. Yno arestwyd Iesu, gan fod Jwdas wedi ei fradychu. Dedfrydwyd ef i farwolaeth a gorfodwyd Iesu i gario ei groes drwy strydoedd Jerwsalem.



Croeshoeliwyd Iesu yn y canol rhwng dau leidr. Pan fu Iesu farw bu daeargryn mawr, ac aeth y ddaear i gyd yn dywyll. Roedd Mair, mam Iesu, yn gwylio'r cyfan.

Ar ôl i Iesu farw dyma un o'i ffrindiau'n cymryd ei gorff a'i lapio mewn lliain glân. Yna fe'i rhoddodd i orwedd mewn bedd, un wedi'i naddu yn y graig. Wedyn, ar ôl rholio carreg drom dros geg y bedd, aeth i ffwrdd.




Yn gynnar iawn fore Sul aeth rhai gwragedd at y bedd. Dyma nhw'n darganfod fod y garreg fawr oedd ar geg y bedd wedi'i rholio i ffwrdd, a phan aethon nhw i mewn i'r bedd doedd y corff ddim yno! Yna'n sydyn dyma ddau ddyn mewn dillad llachar yn sefyll wrth eu hymyl. Dyma'r dynion yn gofyn iddyn nhw, "Pam dych chi'n edrych mewn bedd am rywun sy'n fyw? Dydy Iesu ddim yma; mae yn ôl yn fyw!"



I ni mae hyn yn swnio'n amhosibl, ond mae'r Beibl yn dweud yn glir nad oes dim byd yn amhosibl gyda Duw. Pan ymddangosodd Iesu ar ôl ei atgyfodiad doedd rhai o'i ffrindiau ddim yn ei 'nabod. Tybed pam?

Dyma ddarlleniad dramatig i 2 berson. Mae'n bosib gwisgo lan os ydych yn dymuno. Gellid hefyd cyflwyno'r darn ar ffurf cyfweiliad.

Dyma un o'r troeon cyntaf i rai o ffrindiau Iesu ei weld ar ôl iddo atgyfodi. Dyma be' ddigwyddodd....:



DISGYBL 1

Dw i'n gw'bod bod hyn yn swnio'n wallgo', ond mae'r hanes yn wir bob gair! Go iawn rŵan! Roeddwn i a fy ffrind Cleopas yn cerdded i Emaus - pentre' bach tua saith milltir tu allan i Jerwsalem. Roedden ni'n siarad am Iesu. Roedd o wedi bod yn ein dysgu ni am Dduw. Fedra i ddim esbonio'n iawn pa mor arbennig oedd Iesu. Roedd ei fywyd, ei gyfeillgarwch, ei agosatrywydd at Dduw, a'i ddealltwriaeth o'r ysgrythurau wedi trawsffurfio ein bywydau. Roedd Iesu mor wahanol i bob *rabi* (athro) arall oedden ni'n nabod. Roedd o mor awdurdodol a gweithgar. Mor ddeinamig! Doedd na'm celwydd yn agos ato. Iesu oedd y '*real deal*'.

Ond, glywon ni fod Iesu wedi cael ei gyhuddo ar gam. Roedd o'n gwbl ddiuog. Fe safodd ei brawf o flaen Peilat ac fe'i dedfrydwyd i farwolaeth. Fe'i croeshoeliwyd ef!

Wrth i ni gerdded ro'n i'n gweiddi, "PAM OEDD RHAID IDDO FARW?" Pam oedd rhaid iddo risgio ei fywyd? Roedden ni'n siarad yn ddi-stop. Cwestiwn ar ôl cwestiwn. Doedden ni ddim yn gallu credu be oedd wedi digwydd. Doedden ni ddim yn gwybod be i wneud nesa'? Be oedden ni i fod i gredu?



DISGYBL 2

Yn sydyn, heb i ni sylwi, fe ddaeth y dyn 'ma a dechrau cerdded hefo ni! Gofynnodd i ni am be oedden ni'n siarad. Doeddwn i ddim yn deall sut nad oedd o'n gwybod am groeshoeliad Iesu. Dyma'r newyddion pwysica' yn yr ardal i gyd.

A dyma fi'n dweud, "Mae'n rhaid mai ti ydy'r unig berson yn Jerwsalem sydd ddim yn gwybod beth sydd wedi digwydd y dyddiau dwetha yma!"

"Gwybod beth?" gofynnodd.

"Beth sydd wedi digwydd i Iesu o Nasareth," medda' fi. "Roedd yn broffwyd i Dduw ac yn siaradwr gwych, ac roedd pawb wedi'i weld yn gwneud gwyrrthiau rhyfeddol. Ond cafodd ei groeshoelio. Roeddwn i wedi gobeithio mai fe oedd y Meseia oedd yn mynd i ennill rhyddid i Israel. Digwyddodd hynny echdoe - Ond mae yna fwy ...

Yn gynnar y bore 'ma dyma rai o'r merched oedd gyda ni yn mynd at ei fedd ond doedd y corff ddim yno! Roedden nhw'n dweud eu bod nhw wedi gweld angylion, a bod y rheiny wedi dweud wrthyn nhw fod Iesu'n fyw.

Doedden ni ddim yn gwybod be i feddwl. Y peth diwethaf oedden ni'n disgwyl oedd i'r dyn ddweud, "Dych chi mor ddwl! Pam dych chi'n ei chael hi mor anodd i gredu'r cwbl ddwedodd y proffwydi? Maen nhw'n dweud fod rhaid i'r Meseia ddiodeff fel hyn cyn iddo gael ei anrhydeddu!"

DISGYBL 1

A dyma'r dyn yn mynd dros bopeth ac yn esbonio i ni beth roedd Moses a'r proffwydi eraill wedi'i ddweud am Iesu yn yr ysgrifau sanctaidd.

Pan oedden ni'n eistedd wrth y bwrdd i fwyta, cymerodd dorth o fara, ac adrodd gweddi o ddiolch cyn ei thorri a'i rhannu gyda ni. Yn sydyn dyma ni'n sylweddoli mai Iesu oedd gyda ni, a'r foment honno diflannodd o'n golwg. Dyma ni'n dweud wrth ein gilydd, "Roedden ni'n teimlo rhyw wefr, fel petai'n calonnau ni ar dân, wrth iddo siarad â ni ar y ffordd ac esbonio beth mae'r ysgrifau sanctaidd yn ei ddweud!"

(Nodiadau: oedolyn/athro i arwain ar ôl y cyflwyniad dramatig.)



Pam nad oedden nhw wedi 'nabod Iesu'n syth?

Ai tric oedd y cyfan?

Ydy person yn gallu cael ei drawsffurfio?

Mae tyfu'n un math o drawsffurfiad sy'n digwydd i ni i gyd – y newid o fod yn blentyn i fod yn oedolyn.

Rydyn ni i gyd yn cael ein trawsffurfio'n gorfforol wrth i ni dyfu!



I brofi bod (athrawon/oedolion) wedi bod yn ifanc rydw i wedi perswadio rhai ohonyn nhw i roi lluniau o'u hunain yn blant i mi. Pwy ydy pwy tybed?



Trawsffurfio drwy wisgo lan (dieithrwisg / disguise).

Ydych chi erioed wedi bod mewn siop neu allan yn y stryd a sylwi ar rywun a meddwl bod rhywbeth yn gyfarwydd amdanynt? Falle'ch bod chi'n meddwl eich

bod chi'n eu 'nabod nhw, ond dydych chi ddim yn siŵr? Falle'ch bod chi'n edrych yn ofalus arnyn nhw ac yn ceisio penderfynu os dych chi wedi eu gweld o'r blaen ai peidio. Ydych chi'n holi eich hun, "Ble ydw i wedi eu gweld o'r blaen? Be' sy' wedi newid? Ydyn nhw wedi tyfu'n dalach, newid eu steil gwallt, neu newid eu sbectol?"

Weithiau dyn ni'n cofio pwy oedd y person y diwrnod wedyn! Sut ydyn ni'n cofio? Be sy'n rhoi'r ateb i ni?


(Efallai yr hoffech roi enghraifft o'ch profiad personol)

Ar y ffordd i Emaus doedd ffrindiau Iesu ddim yn disgwyl ei weld. Roedden nhw'n meddwl ei fod wedi marw a'i gorff wedi ei roi mewn bedd. Yn yr hanes nid oedd y ddau ffrind wedi 'nabod Iesu nes iddo gymryd torth o fara, ei thorri a'i rhannu iddyn nhw.

Efallai bod yna reswm arall pan nad oedden nhw wedi ei 'nabod. Rydyn ni'n gallu cael ein trawsffurfio (ein newid) gan ddigwyddiadau.

Fe fydd bob math o bethau'n digwydd yn ystod ein bywydau. Er enghraifft gall cyfoeth neu lwyddiant newid y ffordd dyn ni'n byw, y ffordd dyn ni'n edrych neu'r ffordd dyn ni'n ymddwyn. Weithiau mae salwch, dioddefaint neu dristwch yn gallu ein newid ni.

Efallai bod yr hyn wnaeth Iesu ddiodef ar y groes wedi ei newid...
Efallai.



(Efallai yr hoffech wneud hyn: gwneud rhestr o'r pethau sydd wedi cyfrannu at drawsffurfio/newid eich bywyd chi.

www.wordclouds.com

Nodiadau i athro: Gellir paratoi cwmwl geiriau personol ymlaen llaw. Hefyd, gellir gofyn i blant am eiriau arbennig sy'n cyfleu profiadau o'u haddysg a'u magwraeth. Rhaid rhoi ateb o un neu ddau air i bob cwestiwn cyn ei fwydo i'r rhaglen cwmwl geiriau. [Neu dangoswch yr un sydd wedi ei baratoi.]

Tybed be sy'n effeithio neu ddylanwadu ar ein bywydau ni? Dyma lun o un cwmwl geiriau sy'n cynnwys atebion i rai o'r cwestiynau yma:

1. Dylanwadau wnaeth fy newid i.
2. Gwybodaeth wnaeth fy helpu i.
3. Y pethau sy'n bwysig i mi.
4. Pethau da ddigwyddodd i mi.
5. Pethau oedd ddim mor dda wnaeth effeithio arna i.

Dyma be ymddangosodd! (Croes y Pasg)

Sut ydyn ni'n adnabod yr Arglwydd Iesu?

Mae Cristnogion yn credu bod Duw ac Iesu ar waith o hyd yn ein byd.

Yn Emaus, er bod Iesu wedi marw ac atgyfodi fe wnaeth ei ffrindiau ei 'nabod yn syth pan wnaeth ddechrau dorri'r bara. Pan dych chi'n torri'ch wy Pasg eleni (torri'r wy Pasg yn ddarnau ac efallai rhannu peth ohono) cofiwch mai wrth fyw'n fwy tebyg i Iesu, wrth fod yn garedig a charu eraill, yna fe fydd pobl yn gallu cydnabod Iesu ar waith yn y byd heddiw. Mae'n bosib i ni drawsffurfio (newid) y byd o'n cwmpas.



Am y munudau nesaf rydyn ni am wrando ar gân o'r enw 'Oleuni'r Byd', (cyfieithiad o 'Here I am to worship', Tim Hughes) ac fe fydd cyfres o sleidiau PowerPoint yn cyd-fynd â'r gerddoriaeth yn dangos y byd o'n cwmpas ni. Tybed ydyn ni'n gweld Iesu fel 'Oleuni'r Byd' yn ein dyddiau ni?

<https://youtu.be/hkmJvrUlwnc?list=PLar8irc9iEervZCLSnlcQraY86fSJrnur>

(Mae'r sleidiau wedi eu hamseru, ar ôl y cyntaf fe fydd y gweddill yn dilyn yn awtomatig. Os nad ydych eisiau defnyddio'r gân 'Oleuni'r Byd' yna defnyddiwch ddarn o gerddoriaeth glasurrol.)